



ADRODDIADAU ARHOLWYR TGAU

**TGAU (NEWYDD)
BWYD A MAETH**

HAF 2019

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC:
<https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?!=cy>

Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan ddefnyddio'r wefan hon.

Adroddiad Ystadegol Blynyddol

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn cynnwys canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

Uned	Tudalen
Uned 1	1
Uned 2	5

BWYD A MAETH

TGAU (NEWYDD)

Haf 2019

UNED 1 - EGWYDDORION BWYD A MAETH

Sylwadau Cyffredinol

- Mae nifer addawol o ymgeiswyr yn ceisio cwestiynau ac yn ceisio cymhwysu gwybodaeth. Mae rhai ymgeiswyr yn dal i beidio â cheisio rhai cwestiynau.
- Mae llythrennedd yn destun pryder o hyd, oherwydd ar adegau mae'n anodd dehongli ymatebion oherwydd ansawdd y llawysgrifen. Mae CBAC yn cynnig cyfle i ganolfannau gwblhau'r arholiad gan ddefnyddio asesu ar-lein, a allai fod o fudd i rai ymgeiswyr.
- Mae darllen cwestiynau yn dal yn wendid i lawer o ymgeiswyr. Camddeall a dewis y ffocws anghywir yn aml yw'r rheswm pam nad yw ymgeiswyr yn gallu ennill marciau uwch. Mae angen i ymgeiswyr gael ymarfer techneg arholiad a chael arweiniad ar ddehongli geiriau gorchymyn a ddefnyddir mewn cwestiynau.
- Braff oedd gweld llawer o ymgeiswyr yn drafftio cynllun i helpu i greu gwerthusiad da ar gyfer y cwestiynau ymateb hirach, yn enwedig cwestiwn 8. Dylid parhau i annog hyn gan ganolfannau gan ei fod yn cryfhau gallu'r ymgeisydd i ganolbwyntio ar y geiriau allweddol.
- Anogwch ymgeiswyr i dreulio amser yn paratoi ac yn adolygu ar gyfer yr arholiad yn hytrach na threulio gormod o amser yn cwblhau asesiad dan reolaeth.
- Byddai'n fuddiol i rai ymgeiswyr ailadrodd geiriau allweddol a therminoleg dechnegol, er enghraifft drwy goladu geirfa neu restr o derminoleg. Gall hyn alluogi dealltwriaeth fwy effeithlon o gwestiynau arholiad.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

1. **(a)** Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu nodi'r prif gynhwysyn mewn pasta ffres yn gywir.
(b) Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu awgrymu cynhwysyn naturiol sy'n aml yn cael ei ddefnyddio i liwio pasta ffres yn gywir. Roedd ymatebion poblogaidd yn cynnwys cynhwysion megis 'inc ystifflog', 'betys' a 'sbigoglys'.
(c) Gallai llawer o ymgeiswyr alw gwybodaeth i gof i adnabod siâp pasta traddodiadol a enwir yn gywir. Ymhlith yr ymatebion poblogaidd oedd *fusilli*, *farfalle* a *spaghetti*.
(ch) Roedd yn amlwg bod mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu cymhwysu gwybodaeth i esbonio'n gywir pam mae pasta yn anaddas i rywun sydd â chlefyd coeliag. Roedd ymatebion cryf yn gallu esbonio'r cyfeiriad at glwten yn gywir ac roedd hefyd yn cynnwys y rheswm pam fod pasta yn anaddas.

- (d)** Ceisiodd mwyafrif o'r ymgeiswyr y cwestiwn hwn oedd yn dangos lefel briodol o wybodaeth am faeth. Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu nodi'r prif faetholion a ddarperir gan basta'n gywir a gallent gysylltu hyn yn glir â'r grŵp targed penodedig o oedolyn ifanc gweithgar. Roedd ymatebion o safon uchel hefyd yn cyfeirio at y gwerth cyffredinol y gall cynnyrch bwyd megis pasta ei ddarparu i oedolyn ifanc.
- 2. (a)** Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda iawn gyda mwyafrif yr ymatebion yn nodi swyddogaeth siwgr yn gywir. Mewn lleiafrif o'r ymatebion, roedd y disgyblion yn amlwg wedi camddarllen y cwestiwn ac wedi cynnig ymatebion anghywir.
- (b)** Atebwyd y cwestiwn hwn yn llwyddiannus gyda'r rhan fwyaf o ymgeiswyr yn nodi wyau fel y brif ffynhonnell o brotein o'r rhestr o gynhwysion a ddarparwyd yn gywir.
- (c)** Cynigiodd y cwestiwn hwn ymatebion amrywiol. Roedd mwyafrif o'r ymgeiswyr yn gallu defnyddio gwybodaeth a gafwyd o wersi ymarferol a nodi yn gywir pam y gallai teisen/cacen sbwng suddo yn y canol. Fodd bynnag, nid oedd lleiafrif o ymgeiswyr yn gallu cynnig rhesymau synhwyrol ac yn aml yn dyfalu.
- 3. (a)** Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu nodi'r gwahaniaeth rhwng carbohydrad cymhleth a syml yn gywir. Roedd ymatebion cryf yn cynnwys manylion pellach am y strwythur maetholion a gallent hefyd ddarparu enghreifftiau i gefnogi ymatebion, gan ddangos tystiolaeth o dechneg arholiad effeithiol. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebion a oedd, yn anffodus, wedi darparu ymateb a oedd yn drysu rhwng y gwahaniaeth rhwng carbohydrad syml a chymhleth a arweiniodd at nifer rhyfeddol o uchel o ymgeiswyr yn ennill dim marciau.
- (b)** Cafodd y cwestiwn hwn ei geisio mewn ymatebion amrywiol. Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu nodi ffyrdd y gallai unigolyn leihau'r carbohydradau syml y mae'n ei fwyta'n gywir. Roedd enghreifftiau a ddarparwyd mewn ymatebion o ansawdd da yn gryf ac yn cynnwys awgrymiadau realistig. Fodd bynnag, roedd lleiafrif o ymgeiswyr a oedd yn dehongli'r cwestiwn fel ffyrdd o gynyddu carbohydrad cymhleth. Mewn ychydig o ymatebion, roedd ymgeiswyr wedi dehongli'r cwestiwn fel ffyrdd o gynyddu cynnwys ffibr deietegol.
- 4. (a)** Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu dehongli'r data a ddarparwyd o'r graff gan ddangos elfennau o ddealltwriaeth rifiadol dda.
- (b)** Cynigiodd y cwestiwn hwn ymatebion amrywiol gan ymgeiswyr. Roedd llawer o'r ymatebion yn gwerthuso'r defnydd o brydau parod a'u hwylustod yn annigonol, yn hytrach na thrafod a gwerthuso'r amrywiaeth gyfredol sydd ar gael. Roedd ymatebion effeithiol yn cynnwys trafodaeth dda am lawer o'r gwahanol anghenion deietegol a phrydau parod amrywiol a all ddarparu ar gyfer holl anghenion defnyddwyr.
- 5. (a)** Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu darparu gwybodaeth gadarn am newidiadau cemegol sy'n digwydd i brotein wrth goginio cig. Roedd nifer o ymatebion a oedd yn wan, ac yn cynnig esboniad cyfyngedig o'r newidiadau sy'n digwydd wrth goginio cig. Roedd yr ymgeiswyr hynny a allai ddangos terminoleg gref iawn yn gallu cymhwyso gwybodaeth a gafwyd o brofiadau ymarferol.

- (b) Cafodd y cwestiwn hwn ei ateb yn dda. Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu dangos tystiolaeth o'r diwydiant ffermio a gallent ddangos sut y mae tarddiad bwydydd wedi dod yn achos o ddiddordeb dros y blynyddoedd. Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu cysylltu materion yn ymwneud â'r gallu i olrhain â'r diwydiant ffermio a'r defnyddiwr. Gwnaed cysylltiadau clir â'r broses o olrhain tarddiad cig, safonau bwyd a phecynnu bwyd. Roedd ymatebion gwannach yn gallu nodi'n gryno sut y gallai defnyddwyr adnabod logos a ddefnyddir yn y diwydiant ar becynnau bwyd.
6. (a) Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu enwi bacteria gwenwyn bwyd yn gywir.
- (b) Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu nodi ffactorau sydd eu hangen ar facteria er mwyn tyfu. Mewn ymatebion gwannach nid oedd ymgeiswyr yn benodol am ffactorau a gwnaethant gynnig ymatebion a oedd yn nodi mathau o facteria.
- (c) Mae diogelwch a hylendid bwyd yn parhau i fod yn faes o gryfder i lawer o ymgeiswyr. Roedd rhai ymgeiswyr yn cynnig ymateb o safon uchel iawn gan ddangos gwybodaeth ardderchog am hylendid a diogelwch, gan bwysleisio arferion cywir a thrylwyr sy'n digwydd mewn gwersi'n glir. Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu cefnogi ymatebion gyda thymheredd a gweithdrefnau ar gyfer storio, coginio a gweini bwyd cywir.
7. (a) Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cynnig graddau amrywiol o gywirdeb. Roedd nifer yr ymgeiswyr nad oeddent yn gallu rhoi cynnig ar y cwestiwn hwn yn siomedig. Roedd yn amlwg yn nifer o ymatebion nad oedd y cwestiwn yn cael ei ddeall a chamddehonglwyd y termau technegol emwlseiddio ac awyriad. Rhoddodd ymatebion cryf ddealltwriaeth fanwl i gynnyrch bwyd a enwir a chynnig esboniadau trwyadl o swyddogaeth wyau mewn emwlseiddio bwydydd fel *mayonnaise* ac awyriad mewn cynhyrchion bwyd fel *meringues*.
- (b) Yn gyffredinol roedd yr ymgeiswyr yn gallu adnabod prif werth maethol o gynnwys wyau yn y deiet. Roedd macrofaetholion yn cael eu nodi'n glir gan fwyafrif o'r ymatebion cywir. Fodd bynnag, roedd nifer gyfyngedig o ymatebion a oedd yn dangos gwybodaeth am werth maethol pellach microfaethynnau. Mae maeth yn gyffredinol yn foddhaol ar y lefel hon ac ychydig o ymgeiswyr sy'n methu nodi'n gywir y prif faetholion a geir mewn wyau.
8. Yn gyffredinol cafwyd atebion da iawn i'r cwestiwn hwn gyda llawer o ymgeiswyr yn llunio ymatebion wedi'u strwythuro'n dda. Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu dewis, galw i gof a chymhwysu gwybodaeth o'r ffactorau cymdeithasol, crefyddol, moesol a moesegol. Roedd llawer o ymgeiswyr yn strwythuro ymatebion gan roi sylwebaeth ar bob un o'r pedwar ffactor, gan lunio gwerthusiad cytbwys. Mae ymatebion cryf yn cynnwys yr her o fewn teuluoedd i ddarparu ar gyfer pob un o'r ffactorau a chefnogi pwyntiau gydag enghreifftiau o ansawdd uchel. Rhoddwyd cynnig da iawn ar ffactorau crefyddol gyda llawer o ymgeiswyr yn cynnig gwybodaeth dda am y gwahanol fathau o anghenion deietegol sy'n gysylltiedig â chrefydd. Roedd nifer o ymgeiswyr hefyd wedi cynnig pwyntiau cryf ar gyfer ystyriaethau moesegol. Roedd ymatebion poblogaidd yn trafod lles anifeiliaid, milltiroedd bwyd a phwysigrwydd cefnogi ffermydd lleol. Gwnaeth llawer o ymgeiswyr gysylltiadau â chost cynyddol bwyd a'r effaith y gall ffordd o fyw prysur ei chael ar gwrdd â holl anghenion teulu. Darparwyd llawer o ymatebion amrywiol.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

Yn seiliedig ar eu perfformiad ar y papur hwn, cynigir y cyngor canlynol i ymgeiswyr:

- Adolygwch yn ofalus, gan gofio bod ymarfer yn gwneud gwybodaeth yn barhaol.
- Bydd sgiliau astudio effeithiol a thechneg arholiad da yn rhoi'r hyder i chi berfformio'n dda yn yr arholiad.
- Mae stamina arholiad yn hanfodol – darllenwch y papur arholiad cyfan cyn i chi ddechrau, felly gallwch weld lle mae'r marciau wedi'u dyrannu. Cynlluniwch eich amser yn gysylltiedig â'r dyraniad marciau – mae angen mwy o amser ar gwestiynau marciau uchel.
- Mae'r geiriau gorchymyn (rhowch, nodwch, enwch, disgrifiwch, esboniwch, gwerthuswch, aseswch) yn dweud wrthyf sut i ateb y cwestiwn a beth i'w wneud â'ch ateb.
- Prawfddarllenwch eich atebion a gwiriwch ffeithiau.
- Mae'r cwestiwn math disgrifio/esbonio yn gofyn am fwy o ymarfer. Rhaid i'r ymgeiswyr gefnogi eu hatebion gydag enghreifftiau ac ymatebion cysylltiedig er mwyn gallu ennill y marciau llawn sydd ar gael.
- Mae digon o le wedi'i ddarparu yn y papur cwestiynau ar gyfer eich atebion. Dylech bob amser gynllunio eich atebion yn ofalus ac os oes angen mwy o le arnoch, defnyddiwch daflenni ychwanegol.
- Os ydych yn defnyddio papur ychwanegol, dylech anodi hyn ar yr ymyl nesaf at eich ateb a pharhau ar bapur ychwanegol.
- Ymglyfarwyddwch â fformat y cwestiynau ymatebion data ac ymarferwch y mathau hyn o gwestiynau yn rheolaidd.
- Drafftio atebion ysgrifennu estynedig yn ofalus er mwyn sicrhau eich bod yn cyflwyno ateb cytbwys ar gyfer trafod a gwerthuso cwestiynau.
- Adolygwch yn drylwyr a defnyddiwch wefannau adolygu'r rhyngwryd neu werslyfrau sy'n gysylltiedig â'r pwnc i wirio eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth.
- Gwnewch yn siŵr bod eich llawysgrifen yn ddarllenadwy.

BWYD A MAETH

TGAU (NEWYDD)

Haf 2019

UNED 2 – BWYD A MAETH AR WAITH

Sylwadau Cyffredinol

Diolch i'r canolfannau a gyflwynodd eu gwaith cwrs yn gynnar; roedd hyn o gymorth mawr wrth gymedroli. Roedd ambell ganolfan yn cyflwyno gwaith cwrs ymhell wedi'r dyddiad cau – y dyddiad ar gyfer cyflwyno gwaith cwrs bob amser yw 5 Mai bob blwyddyn. Dylid cyflwyno marciau ar lein drwy'r system ddiogel mewn da bryd i sicrhau bod y gwaith gyda'r safonwr erbyn 5 Mai. Os bydd y cymedrolwr yn gofyn am gael gweld samplau pellach gan ganolfan yna mae'n rhaid i'r gwaith hwn fod yn barod i'w anfon ar unwaith gyda'r holl daflenni BM angenrheidiol wedi'u dilysu. Rhaid i'r taflenni clawr gael eu llenwi ar gyfer yr holl ymgeiswyr, nid y rhai a ddewiswyd ar gyfer y sampl gymedroli yn unig.

Braf oedd gweld bod y gwaith yn fwy hygyrch eleni gyda llawer llai o ganolfannau yn anfon gwaith mewn waledi plastig. Roedd rhai anawsterau â labelu gwaith cwrs ymgeiswyr; dylai pob tudalen o waith a gyflwynir gan ymgeisydd fod yn glir gyda phennawd neu droednod yn hysbysu enw, a rhif yr ymgeisydd a rhif y ganolfan.

Mae anodi ar y taflenni clawr BM yn cynorthwyo'r broses gymedroli'n fawr ac yn galluogi'r cymedrolwr i weld sut a ble mae marciau wedi cael eu dyfarnu. Darparodd llawer o ganolfannau'r anodi hyn a byddem yn annog pob canolfan i ddilyn yr arfer da hwn.

Mae tystiolaeth ffotograffig o ganlyniadau ymarferol yn hanfodol i'r broses gymedroli ac fe'i darparwyd yn y rhan fwyaf o waith yr ymgeiswyr. Roedd peth o'r gwaith a welwyd yn cynnwys ffotograffau a oedd yn rhy fach i allu gweld ansawdd yr eitemau gorffenedig neu a oedd mewn du a gwyn, ac nid oedd peth o'r gwaith a welwyd yn cynnwys unrhyw luniau o gwbl. Dylid darparu ffotograffau clir, lliw yn y ffolios o unrhyw eitemau sydd wedi'u gwneud gan mai dyma'r unig gyfle a gaiff y cymedrolwr i weld canlyniadau ymarferol ymgeiswyr ac i weld a yw'r marciau a ddyfarnwyd wedi bod yn deg ac yn gywir.

Roedd yn braf gweld bod y marcio, ar y cyfan, wedi bod yn fwy cywir. Roedd y rhan fwyaf o'r canolfannau'n gallu nodi'r band marciau cywir a dyfarnu marciau yn unol â hynny. Roedd rhai canolfannau a oedd yn hael gyda'r marciau a ddyfarnwyd a byddai'r canolfannau hynny'n cael eu cynghori i wrando ar y cyngor a roddwyd yn adroddiadau'r cymedrolwr a ysgrifennwyd i sicrhau bod y marciau a ddyfarnir yn y dyfodol yn unol â meini prawf y fanyleb.

Ymddengys y glynydd at derfynau tudalennau ond byddai'n fuddiol pe gallai ymgeiswyr gynnwys y cyfrif geiriau ar ddiwedd y gwaith Asesiad Di-arholiad 1.

Yn gyffredinol, roedd yn ymddangos bod llawer o ganolfannau'n fwy cyfarwydd â meini prawf y fanyleb a'r cynllun marcio eleni ac roedd llawer o'r gwaith a gyflwynwyd yn welliant ar y blynyddoedd diwethaf. Gobeithir y bydd hyn yn parhau mewn blynyddoedd i ddod.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

Asesiad Di-arholiad 1 – Roedd y ddwy dasg oedd ar gael yn boblogaidd ymysg dysgwyr.

Ymchwilio ac archwilio

Cyflwynwyd ymchwil yn y rhan fwyaf o waith yr ymgeiswyr. Roedd yn ymddangos bod llai o waith yn cael ei gopïo a'i ludo eleni ac roedd llawer o ymgeiswyr yn glir yn eu hymchwil ac yn gallu crynhoi eu canfyddiadau yn unol â hynny. Mae crynhoi'r canfyddiadau yn yr adran ymchwil yn bwysig i helpu i alluogi ymgeiswyr i lynu wrth y terfyn geiriau 2000-2500. Mae hefyd yn bwysig i ymgeiswyr ddadansoddi eu hymchwil gan y dylai hyn roi ffocws iddynt allu dewis eu newidynnau ar gyfer eu arbrofion ymarferol.

Roedd peth o'r gwaith a welwyd yn cynnwys diagramau a wedi'u cysylltu'n benodol â'r dasg, ac roedd yn braf ei weld ac yn gwella'r adrannau ymchwil. Er enghraifft, yn y dasg Gelatin, cafodd diagramau eu cynnwys yn dangos sut mae moleciwlau protein yn eu setio mewn jeli neu sut maen nhw'n cael eu 'torri i fyny' gan ffrwythau penodol. Yn y dasg brasterau, roedd rhai ymgeiswyr gallu uwch wedi cynnwys diagramau'n dangos hydrogeniad brasterau. Pan fydd diagramau wedi'u cynnwys, mae'n rhaid i ymgeiswyr gynnwys cyfeiriad at ble y maent wedi cael gafael ar eu delweddau.

Gwelwyd rhywfaint o ymchwil o hyd a oedd yn cael ei harwain gan athro, ond roedd yr achosion hyn yn llai na'r llynedd. Gallai ymgeiswyr gallu is elwa o'r ymarfer hwn ond gall atal ymgeiswyr ystod ganol ac uwch.

Ymchwiliwyd yn dda i'r dasg Gelatin ar y cyfan, ond collodd rhai ymgeiswyr gyfleoedd. Gallai fod ymchwil wedi cael ei wneud i wahanol fathau o gelatin; roedd yr ymgeiswyr a wnaeth hyn yn gallu ehangu eu gwybodaeth am y cynnyrch a'r dewisiadau amgen oedd ar gael. Ymchwiliwyd i wahanol ffrwythau ac roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu trafod y rhesymau gwyddonol pam fod rhai ffrwythau'n effeithio ar sut mae'r jeli'n setio. Nid oedd llawer o'r gwaith a welwyd yn cynnwys nodweddion jeli; dylai hyn fod wedi cael ei gynnwys fel bod ymgeiswyr yn deall sut y dylai jeli wedi setio fod ac yna'n gallu defnyddio'r wybodaeth hon i gymharu eu jelliau arbrofol.

Ar gyfer y dasg Brasterau, roedd amrywiaeth o frasterau wedi cael eu hymchwilio ac roedd lleiafrif o ddisgyblion wedi bod yn eithaf anturus gyda rhai o'r brasterau yr oeddent wedi ymchwilio iddynt. Roedd nifer o'r ymgeiswyr wedi trafod nodweddion y teisenau/cacennau a wnaed gan ddefnyddio'r dull hufennu, ond mae nodweddion y cynhyrchion sydd i'w gwneud ym mhob tasg yn rhywbeth y mae angen ei weld yn fwy rheolaidd mewn gwaith carfannau yn y dyfodol. Er mwyn ymdrin â'r agwedd wyddonol ar yr ymchwil, gallai ymgeiswyr fod wedi ymchwilio i'r broses o hydrogeniad brasterau wrth gynhyrchu rhai o'r brasterau yr ymchwiliwyd iddynt. Roedd hwn yn faes nad oedd yn cael ei weld mewn llawer o'r ffolderi. Roedd cyfle hefyd i drafod y wyddoniaeth oedd yn rhan o'r dull hufennu o wneud teisenau/cacennau a phriodweddau swyddogaethol brasterau. Roedd rhai ymgeiswyr yn gallu cynnwys hyn yn eu gwaith.

Roedd cynlluniau gweithredu, gyda ryseitiau a dulliau, wedi'u cynnwys yng ngwaith llawer o ymgeiswyr. Darparwyd newidynnau yn y rhan fwyaf o'r gwaith a darparwyd mwy o gyfiawnhad dros y dewis yn y gwaith eleni, ond mae llawer o ymgeiswyr o hyd sy'n methu cynnwys hyn yn eu ffolderi. Mae cyfiawnhau dewis o newidynnau ar gyfer yr arbrofi ymarferol yn galluogi ymgeiswyr i ddangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth a gafwyd o'u hymchwil.

Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu darparu damcaniaeth, ond roedd rhai, yn enwedig yn y dasg Gelatin, yn rhy eang. Mae angen i ragfynegiadau fod yn ddigon penodol i alluogi ymgeiswyr i nodi'n glir pa newidyn y maent yn credu bydd orau a pham maen nhw'n meddwl hyn.

Ymarferol

Roedd amrywiaeth o waith ymarferol wedi'i wneud. Ar gyfer y dasg Gelatin, roedd yr ymgeiswyr wedi defnyddio ystod eang o newidynnau oherwydd y nifer o ffyrdd o brynu ffrwythau e.e. ffres, tun, sych, wedi'i rhewi ac fel sudd. Ar gyfer y dasg Brasterau, roedd llawer o ymgeiswyr wedi defnyddio rhwng pedwar a chwe math gwahanol o frasterau a oedd yn ddigon i gasglu ystod o ganlyniadau. Darparwyd tystiolaeth ffotograffig ac roedd y mwyafrif yn glir ac mewn lliw. Roedd mwy o anodi'r ffotograffau'n i'w weld eleni. Roedd yn braf gweld bod amrywiaeth o fformatau wedi cael eu defnyddio i gyflwyno canlyniadau ac roedd llawer o ymgeiswyr wedi defnyddio nifer o'r dulliau canlynol; proffiliau sêr, siartiau bar, profion dewis cyfoedion a siartiau graddio hedonig. Drwy gynnwys amrywiaeth o fformatau i gyflwyno canlyniadau mae'n rhoi mwy o gyfle i ymgeiswyr ennill marciau yn y bandiau uwch.

Ar gyfer y dasg Gelatin, gallai'r gwaith arbrofol fod wedi edrych ar ddefnyddio ffrwythau a effeithiodd ar sut oedd y jeli'n setio, fel pinafal, ciwi a papaia, a defnyddio rhai ffrwythau nad oedd yn galluogi cymhariaeth. Roedd rhai ymgeiswyr wedi gwneud addasiadau yn ystod eu harbrefion megis gweld effaith coginio'r kiwi, y pîn-afal a'r papaia ar sut oedd ffrwyth yn setio. Roedd hyn yn braf i'w weld ac yn dangos bod yr ymgeiswyr yn addasu eu proses feddwl wrth iddynt gwblhau eu harbrefion. Roedd rhai ymgeiswyr hefyd wedi defnyddio amrywiaeth o ffrwythau i weld y canlyniadau fel arbrawf cyntaf, ac yna'n cwblhau ail set o arbrefion gan edrych ar wahanol fersiynau o'r un ffrwyth e.e. pinafal ffres mewn tun, fel sudd, wedi sychu, a wedi rhewi. Defnyddiwyd dadansoddi gweledol, gosod llwyau ar y jeli a siartiau gludedd i weld a oedd y jeliâu wedi setio. Yn rhywfaint o'r gwaith a welwyd, nid oedd yr ymgeiswyr wedi gwneud rheolydd jeli; fe ddylai bod hyn wedi'i wneud er mwyn sicrhau bod canlyniad safonol ar gael i gymharu'r newidynnau ag ef.

Yn y dasg Brasterau, gallai'r ymgeiswyr fod wedi edrych ar ddefnyddio gwahanol fathau o fenyn a margarîn, ond hefyd dewisiadau eraill fel braster gŵydd, lard ac afocados i enwi ond ychydig. Gallai ymgeiswyr fod wedi cofnodi'r gwahaniaethau yn yr amser a gymerwyd i hufennu eu brasterau a'u siwgrau dewisol, lliw'r cymysgedd hufennog cyn ac ar ôl coginio, cyfaint y cymysgedd hufennog, gwead a faint roedd y cacennau wedi codi ar ôl pobi.

Yn ogystal ag amrywiaeth o fformatau a gynhwyswyd i gyflwyno canlyniadau'r arbrofi ymarferol, cafwyd hefyd mwy o anodi a thrafodaeth ar y canlyniadau a gynhwyswyd yn y gwaith eleni. Mae hyn yn rhywbeth y dylid parhau i'w weld yn y ffolderi yn y blynyddoedd i ddod.

Roedd rhai o'r marciau a ddyfarnwyd ar gyfer adran ymarferol yr asesiad hwn yn hael; Roedd yn amlwg bod rhai ymgeiswyr wedi ennill marciau o'r band anghywir. Wrth farcio'r tasgau ymarferol, dylid penderfynu ar y band marciau cywir cyn dyfarnu marc terfynol wedyn.

Gwerthusiad

Yr adran werthuso yn yr asesiad hwn yw'r adran y mae ymgeiswyr ystod ganol ac is yn ei chael hi'n anodd ei chwblhau'n fanwl. Roedd llawer o'r ymgeiswyr ystod uwch yn gallu trafod eu canlyniadau yn fanwl a chysylltu eu canfyddiadau â'r adran ymchwil ac archwilio ac roeddent hefyd yn gallu cysylltu'r egwyddorion gwyddonol a oedd yn gysylltiedig â'u canlyniadau ymarferol.

Roedd rhai o'r gwerthusiadau a welwyd yn tueddu i fod yn ddisgrifiadol yn hytrach na dadansodol ac mae hyn yn atal rhai ymgeiswyr rhag ennill marciau yn y bandiau marciau uwch.

O ran y dasg Gelatin, gallai ymgeiswyr fod wedi trafod y rhesymau pam na wnaeth rhai o'u jelliau setio oherwydd yr ensymau oedd yn bresennol yn y ffrwyth. Pe baent wedi dewis coginio ffrwythau ffres penodol yn ystod eu sesiwn ymarferol (e.e. pinafal, ciwi neu papaia) neu ddefnyddio sudd wedi'i basteureiddio yna dylent fod wedi trafod y ffaith bod y broses wresogi yn dinistrio'r ensymau sy'n atal jeli rhag setio.

Ar gyfer y dasg Brasterau, dylai'r gwerthusiad fod wedi cynnwys trafodaeth am y rhesymau pam nad oedd rhai o'r brasterau'n hufennu'n dda iawn a'r gwahaniaethau o ran ymddangosiad, lliw a gwead y cymysgedd hufennog a'r cynnyrch terfynol. Roedd un o'r prif resymau dros yr amrywiadau hyn i'w wneud â chynnwys dŵr y braster a ddefnyddiwyd, ond ychydig o ymgeiswyr oedd yn gallu trafod hyn yn fanwl.

Dylai'r adran werthuso hefyd fod wedi cynnwys adolygiad manwl o pŵn a brofwyd neu ddadbrofwyd y ddamcaniaeth, a thrafodaeth ar beth oedd y rhesymau. Mae hwn yn faes yr oedd llawer o ymgeiswyr wedi methu ag ysgrifennu amdano yn ddigon manwl. Dylid hefyd trafod ymchwiliadau pellach yn yr adran werthuso. Er enghraifft, gallai'r ymgeiswyr a gwblhaodd y dasg Gelatin fod wedi sôn am edrych ar ddefnyddio gelatinau gwahanol, coginio ffrwythau neu ddefnyddio ffrwythau eraill fel awgrymiadau ar gyfer arbrofion amgen neu bellach. Ar gyfer y dasg Brasterau, gallai ymgeiswyr fod wedi sôn am ddefnyddio rhai brasterau eraill nad oeddent wedi'u defnyddio eisoes, gan ddefnyddio gwahanol ddarnau o offer i hufennu'r braster a'r siwgr gyda'i gilydd neu edrych ar ddefnyddio'r brasterau yn y dulliau eraill o wneud teisenau/cacennau i weld sut oeddent yn llwyddo.

Asesiad Di-arholiad 2 – yr opsiwn dull coginio Ffrengig oedd y mwyaf poblogaidd ymhlith ymgeiswyr.

Ymchwilio ac archwilio

Fel y crybwyllwyd yn adroddiad y llynedd, dylai'r adran ymchwil gynnwys ymchwil cynradd ac eilaidd. Mae rhai ymgeiswyr yn gallu gwneud hyn yn dda ac yn cynnwys amrywiaeth o ymchwil, ond mae llawer o waith ymchwil sy'n seiliedig ar y rhyngwyd yn unig yn cael ei gynnwys o hyd yn rhywfaint o'r gwaith a welwyd. Mae holiaduron, ymweliadau â bwyta, cyfweiliadau a dadansoddi cynnyrch i gyd yn ddulliau addas o ymchwil gynradd y gellir eu cynnwys ynghyd ag unrhyw ymchwil ar y rhyngwyd. Cafodd treialon ymarferol eu cynnwys yn y rhan fwyaf o'r gwaith a welwyd, ynghyd â thystiolaeth ffotograffig, ond nid yw'r ymgeiswyr yn ymdrin â holl feini prawf gofynnol y fanyleb wrth werthuso eu treialon ymarferol. Mae angen cynnwys cyfeiriad at faeth, sgil, dulliau coginio a rhinweddau synhwyraidd yn y sylwadau gwerthusol er mwyn cyfiawnhau dyfarnu marciau o'r band uchaf. Roedd rhai canolfannau wedi annog ymgeiswyr i gynnwys ryseitia, dulliau a hyd yn oed cynlluniau amser ar gyfer y treialon ymarferol – nid oes angen y rhain ac nid ydynt yn deilwng o gredyd. Dylai ymgeiswyr fod wedi'u hannog i ddefnyddio eu hamser yn ddoethach gan sicrhau eu bod yn cwmpasu holl feini prawf y fanyleb.

Roedd cyfiawnhad dros y dewis o seigiau wedi'i gynnwys mewn mwy o'r gwaith a welwyd eleni, ond roedd rhai ffolderi o hyd lle nad oedd yr holl bwyntiau manyleb gofynnol wedi'u cynnwys. Mae hyn yn atal ar allu'r ymgeiswyr i ennill y marciau uwch ar gyfer yr adran hon. Er mwyn helpu carfannau yn y dyfodol, gallai canolfannau annog ymgeiswyr i ddefnyddio is-benawdau i sicrhau bod yr holl bwyntiau angenrheidiol yn cael eu trafod.

Roedd llawer o'r cynlluniau amser a welwyd yn cynnwys tair adran glir (*mise-en-place*, coginio a gweini) ond eto nid oedd digon o fanylion yn yr adrannau *mise-en-place* a gweini. Dylai'r adran *mise-en-place* fod lle mae'r ymgeiswyr yn paratoi offer, gan gwblhau unrhyw waith paratoi ffrwythau a llysiau, gwneud toes ac unrhyw dasg arall sy'n ofynnol cyn coginio'r seigiau. Ar y cyfan roedd yr adran goginio yn fanwl iawn a chynhwyswyd llawer o bwyntiau hylendid a diogelwch sydd nid yn unig yn cynorthwyo'r ymgeiswyr yn ystod y sesiwn ymarferol ond hefyd yn dangos eu gwybodaeth am faterion megis tymereddau allweddol a gwenwyn bwyd. Roedd nifer o'r adrannau gweini a welwyd hefyd yn brin o fanylion – nid yw nodi 'gweini seigiau' yn ddigon. Dylid rhestru pwyntiau ynghylch sut y caiff y seigiau eu rhannu'n gyfrannau, eu garnisio a'u cyflwyno. Dylai'r gwaith golchi terfynol hefyd gael ei gynnwys yn yr adran weini.

Nid yw rhestri cynhwysion yn cael eu gweld yn y ffolderi bob amser o hyd – mae angen eu cynnwys fel rhestri ar wahân ar gyfer pob saig neu eu cynnwys drwy gydol y cynllun amser.

Ymarferol

Braf oedd gweld bod mwy o ganolfannau wedi defnyddio'r daflen farcio ymarferol sydd ar gael yn adran adnoddau'r wefan. Mae'r ddalen hon yn darparu dadansoddiad o farciau ar gyfer pob un o'r sgiliau a restrir yn Adran B. Mae'r daflen hefyd yn rhoi cyfle i ychwanegu sylwadau a all helpu'r cymedrolwr i weld sut a pham mae'r marciau wedi cael eu dyfarnu. Diolch i'r canolfannau hynny a ddefnyddiodd y ddaflen a gobeithir y bydd mwy o ganolfannau yn eu defnyddio yn y dyfodol.

Darparwyd ffotograffau lliw yn bennaf ac roedd rhywfaint o'r dystiolaeth ffotograffig yn ardderchog ac yn wirioneddol arddangos canlyniadau ymarferol terfynol yr ymgeiswyr. Roedd rhai canolfannau o hyd a oedd yn darparu ffotograffau du a gwyn a ffotograffau aneglur - mae hyn yn ei gwneud yn anodd cymedroli'r gwaith ymarferol, yn enwedig os na ddarparwyd cyfiawnhad ac anodi athrawon.

Dyfarnwyd rhai marciau hael o hyd am y sesiwn ymarferol, yn bennaf yn yr adrannau paratoi a chyflwyno. Dyfarnwyd marciau uchel i rai ymgeiswyr ac eto roeddent wedi methu â darparu unrhyw gyfwyd gyda'r seigiau. Gall cyfwydydd roi'r cyfle sydd ei angen i lawer o ymgeiswyr arddangos sgiliau ychwanegol a gwneud i'r seigiau edrych yn fwy tebyg i blatiau gorffenedig o fwyd.

Gwerthusiad

Mae'r adran werthuso yn dal i fod yn faes y gallai llawer o ymgeiswyr gynnwys mwy o fanylder ynddo. Mae'r ymgeiswyr sy'n defnyddio is-benawdau yn tueddu i ymdrin â'r rhan fwyaf o feini prawf y fanyleb, ond byddai mwy o fanylder wedi cyfiawnhau rhai o'r marciau a ddyfarnwyd.

Tueddai rhai gwerthusiadau i fod yn ddisgrifiadol yn hytrach na dadansoddol. Nid oes angen disgrifio'r hyn a ddigwyddodd yn ystod sesiwn ymarferol yr ymgeiswyr ac nid yw'n deilwng o gredyd; dylid annog ymgeiswyr i beidio ag gwneud hyn. Lle y gwneir sylwadau ar sgiliau, nid yw'n ddigon nodi'r sgiliau a ddefnyddwyd yn unig; dylid gwneud sylwadau ar eu haddasrwydd a pha mor dda y cawsant eu gweithredu.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

Mae'n ymddangos bod canolfannau wedi dod yn fwy hyderus gyda'r cynlluniau marcio ar gyfer yr asesiadau eleni ac mae'n ymddangos bod mwy o ganolfannau wedi marcio'n deg a chywir. Mae rhai canolfannau nad ydynt wedi gwneud hyn o hyd, a byddem yn argymhell mynychu digwyddiadau DPP yn yr hydref a defnyddio deunydd enghreifftiol sydd ar gael o'r wefan.

Bwriad adroddiad y cymedrolwr, sydd ar gael o'r wefan ddiogel ar ddiwrnod canlyniadau TGAU, yw rhoi cefnogaeth ac arweiniad i athrawon; a fyddech cystal â chymryd amser i'w darllen a'u defnyddio i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Aseiad Di-arholiad yn y dyfodol.

Cofiwch fod y briffiau'n newid yn flynyddol a'u bod yn wahanol i'r rhai a wneir yn Lloegr (Eduqas); cyfrifoldeb y canolfannau yw sicrhau bod briffiau 'byw' yn cael eu defnyddio.



CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
Gwefan: www.cbac.co.uk